## CYNGOR GWYNEDD CABINET

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Mehefin 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn ( Arweinydd y Cyngor) |
| **Awdur yr Adroddiad :** | Iwan Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 32015 |
| **Teitl yr Eitem:** | Addasiadau i'r Cyfansoddiad Cynllun Dirprwyo Adroddiad Swyddog Monitro |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 **Cymeradwyo yr addasiadau i Adran 13 (3) o'r Cyfansoddiad Cynllun Dirprwyo Swyddogion a ddangosir yn Atodiad 1**

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Mae dyfodiad ystod o gronfeydd grantiau newydd yn o amryw ffynonellau a maint wedi amlygu angen i diweddaru hawliau dirprwyedig er sicrhau eu bod yn briodol ac addas i gefnogi gweinyddiaeth effeithlon o geisiadau.

**3. CEFNDIR**

3.1 Mae hawliau dirprwyedig gan y Pennaeth Economi ac Adfywio i ddyfarnu grantiau ar draws sawl maes. Cydnabyddir fod y rhan yma o'r Cyfansoddiad a'r rhiniogau wedi bod mewn bodolaeth ers cryn amser heb eu hadolygu. Mae sawl rheswm am hyn ac mae'n debygol nad oedd angen ystyried trefniadau amgen o gan fod trefniadau dyrannu a priodoli grantiau unai yn deillio o gronfeydd Ewrop neu fod lle ac amser i drefnu penderfyniadau ar sail achos fesul achos. Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg yn y misoedd diwethaf yw fod ystod o gronfeydd yn dod i'r arfaeth gyda rôl ganolog gan y Cyngor yn gweinyddu yr arian yma. Mae hefyd yn amlwg hefyd fod y cronfeydd yma yn gallu esgor ar nifer o geisiadau sydd angen eu prosesu a dyfarnu a hynn o fewn amserlenni cadarn a chymharol fyr os yw'r arian am gael ei sicrhau.

3.2 Gyda hyn mewn golwg ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Adran y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid rwyf yn awgrymu fod yr addasiadau sydd yn Atodiad 1 yn cael eu gwneud i'r Cynllun Dirprwyo. Mae'r rhain yn faterion sydd o fewn swyddogaethau yr Arweinydd ond ystyrir oherwydd fod y Cabinet yn ymwneud a sefydlu a gosod

trefniadau mewn lle ar gyfer rhai o'r grantiau yma ei fod yn briodol fod y Cabinet yn cymeradwyo y newidiadau. Mae balans yn cael ei dynnu yn y newidiadau arfaethedig rhwng cynyddu y rhiniog ar gyfer cymeradwyo grantiau i £100,000 ond fod modd cymeradwyo hyd at £250,000 mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet yn unig.  Nodir hefyd fod yr hawl ynglŷn a phrosiectau sydd o fewn Gwynedd,

Yn unol a'r Cyfansoddiad byddaf yn adrodd ar y newid yma i'r Cyngor Lawn er gwybodaeth yn ei gyfarfod nesaf.

. **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Yn unol a'r adroddiad

**Barn y swyddogion statudol:**

**Y Swyddog Monitro:**

Awdur yr Adroddiad

**Pennaeth Cyllid:**

Mae'r addasiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad yn adlewyrchu'r angen i weithredu'n hyblyg a chwimwth mewn perthynas â'r grantiau mae'r awdurdod yn eu gweinyddu.  Fel mae'r adroddiad yn nodi, nid yw'r rhan yma o'r Cyfansoddiad wedi cael ei adolygu ers peth amser, ac mae'n amserol i wneud hynny rŵan.

Rwyf yn fodlon fod trefniadau rheolaeth fewnol addas a chadarn yn eu lle o fewn y Cyngor i liniaru'r risgiau sydd ynghlwm â gweinyddu a chymeradwyo taliadau grant. Nid oes gennyf felly wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol."